| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **28 Chwefror 2013** |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog:** | **Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid** |
| **Teitl:** | **Cysylltu gyda'n cymunedau ac ailddiffinio ein hagwedd tuag at fod yn 'Gyngor Rhagorol sy'n Agos ar y Gymuned'** |

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad yn cynnwys dwy adran, sef:

(i) Sut mae'r Cyngor yn bwriadu cysylltu gyda'r cymunedau yn Sir Ddinbych, a
(ii) Ailddiffinio ein hagwedd tuag at ddatblygu elfen 'Agos ar y Gymuned' ein datganiad cenhadaeth o fod yn 'Gyngor Rhagorol yn Agos at y Gymuned'.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Gofyn am farn y Pwyllgor ar sut mae'r Cyngor yn symud ymlaen ar thema Dod yn Agosach at y Gymuned a sut rydym yn cysylltu orau gyda thrigolion.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Pwyllgor:
3.1 yn gwneud sylwadau ar ddulliau posibl o wella cyfleoedd cysylltu gyda thrigolion a grwpiau sydd â diddordeb, a
3.2 yn gwneud sylwadau ar yr agwedd ddiwygiedig tuag at y diffiniad o fod yn Gyngor Rhagorol **sy'n Agosach ar y Gymuned.**

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae arolwg cynhwysfawr o sut mae'r Cyngor yn bwriadu cysylltu gyda chymunedau'r Sir a'i agwedd ddiwygiedig tuag at gyflawni ei uchelgais o fod yn 'Gyngor Rhagorol yn Agos at y Gymuned' i'w weld yn yr Atodyn i'r adroddiad hwn.

4.2 Ynghlwm wrth yr Atodyn mae atodiadau yn manylu ymarferion cyfranogiad diweddar a rhai sydd i ddod, a siart yn amlinellu'r elfennau â thema a ddatblygwyd i bwrpas sicrhau gwelliannau pellach mewn perthynas â dod yn agos at y gymuned.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r pwnc hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol i ddatganiad cenhadaeth cyffredinol y Cyngor o ddod yn Gyngor Rhagorol yn Agos at y Gymuned. Disgwylir i'r agwedd hon fynd trwy'r blaenoriaethau corfforaethol a chyflwyniad gwasanaeth.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

Mae'r materion yn yr adroddiad hwn i'w cyflawni trwy arian a adnabuwyd ar gyfer cyflawni'r saith blaenoriaeth gorfforaethol a chyllid ar gyfer cyflwyno gwasanaeth yn uniongyrchol.

## 7. Pa ymgynghori a fu?

Mae'r agwedd a gynigir yn yr adroddiad hwn wedi ei thrafod gan y Tîm Gweithredu Corfforaethol a'r Uwch Dîm Arwain a chyda'r Aelod Arweiniol. Mae nifer o agweddau penodol wedi eu hystyried gan y Cynghorau Tref a Chymuned ac yn fwy cyffredinol wrth ddatblygu Cynlluniau Tref / Ardal.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Tra nad oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn, dylai gwella eich cyfranogiad gyda chymunedau ddechrau effeithio lle a sut rydym yn cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?

Mae absenoldeb cynllun clir a ffres yn golygu bod risg i'r Cyngor o fethu â chyflawni ei ddatganiad cenhadaeth yn llawn. Mae risg hefyd bod y Cyngor yn ymbellhau oddi wrth y cymunedau.

## 10. Pŵer i Gymryd y Penderfyniad

Erthygl 6.3 Cyfansoddiad y Cyngor
A2 Deddf Llywodraeth Leol 2000
Rhan 2 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009

Mae Erthygl 6.3 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi "…caiff pwyllgorau craffu ystyried a gweithredu mecanweithiau i annog a gwella cyfranogiad cymunedol wrth ddatblygu opsiynau polisi".

**Swyddog Cyswllt:**
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid
Ffôn:  01824 712501